

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Ysgrifennaf i'ch hysbysu o'n trefniadau ar gyfer croesawu mwy o ddisgyblion yn ôl i'r ysgol o'r wythnos yn cychwyn Mawrth 15fed ymlaen.

Bydd cadarnhad terfynol o'r trefniadau hyn yn digwydd wedi i Brif Weinidog Cymru wneud datganiad ar 12fed Mawrth, a hynny oherwydd yr angen i weithredu yn unol â'r sefyllfa Iechyd Cyhoeddus ar y pryd. Serch hynny, rydym am gyfathrebu ein bwriadu gyda chi er mwyn inni gyd baratoi at ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb. Yn ystod yr wythnos yn cychwyn Mawrth 15fed byddwn yn croesawu blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 nôl i'r safle fel a ganlyn:

Dydd Llun, Mawrth 15fed – tua hanner pob dosbarth CA 2 yn dychwelyd yn nhrefn yr wyddor o safbwynt cyfenwau (gweler tabl isod)

Dydd Mawrth, Mawrth 16eg – hanner arall y dosbarth yn dychwelyd yn nhrefn yr wyddor o safbwynt eu cyfenwau.

Dydd Mercher, Mawrth 17eg - Mi fydd holl ddisgyblion yr ysgol wedi dychwelyd.

Blwyddyn addysgol / Educational year	Dydd Llun Mawrth 15fed / Monday, March 15 th	Dydd Mawrth, Mawrth 16eg / Tuesday, March 16 th
Blwyddyn 3 / Yr 3 Meryl Wigley / Llinos Jarman Jones	Cyfenwau / Surnames A - J	Cyfenwau / Surnames K - Z
Blwyddyn 3 / Yr 3 Buddug Davies	Cyfenwau / Surnames A - H	Cyfenwau / Surnames I - Z
Blwyddyn 4 / Yr 4 Siân Eleri Davies	Cyfenwau / Surnames A - J	Cyfenwau / Surnames K - Z
Blwyddyn 4 / Yr 4 Dyfed Jones	Cyfenwau / Surnames A - J	Cyfenwau / Surnames K - Z
Blwyddyn 5 / Yr 5 Ffion Ellis	Cyfenwau / Surnames A - L	Cyfenwau / Surnames M - Z
Blwyddyn 5 / Yr 5 Siôn Griffiths	Cyfenwau / Surnames A - H	Cyfenwau / Surnames I - Z
Blwyddyn 6 / Yr 6 Llŷr Evans	Cyfenwau / Surnames A - J	Cyfenwau / Surnames K - Z
Blwyddyn 6 / Yr 6 Gareth James	Cyfenwau / Surnames A - I	Cyfenwau / Surnames J - Z



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Diwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd - ni chynhelir diwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd ar ddydd Gwener, Mawrth 26ain, fel a nodir yng nghalendr Ceredigion. Mi fydd y diwrnod HMS nesaf ar ddydd Gwener, Mai 28ain.

Gwyliau'r Pasg – mi fydd yr ysgol yn cau ar gyfer gwyliau'r Pasg am 3.30 ar ddydd Gwener, Mawrth 26ain ac yn ail agor ar ddydd Llun Ebrill 12fed.

Mygydau - bydd angen i bob rhiant ac ymwelydd i'r safle wisgo mwgwd ar bob adeg. Mae hyn yn cynnwys rhieni/gofalwyr pan yn hebrwng a chasglu eu plant o'r ysgol. Gofynnir yn garedig i rieni hefyd ymbellhau'n gymdeithasol wrth ymgynnull. Mae staff fod gwisgo mygydau mewn dosbarthiadau os nad ydynt yn medru cadw 2 fetr oddi wrth y plant neu oedolion eraill.

Diogelwch - mae'r holl fesuriadau trylwyr oedd ar waith gyda'r ysgol yn parhau o ran cadw grwpiau cyswllt, cymryd tymheredd, coridorau unffordd, hylendid a glanhau ychwanegol.

Bwyd - bydd y Gegin ar agor i bawb o Fawrth 15fed ymlaen. Ni fydd talebau/taliadau ar gyfer disgyblion cymwys i Brydau Ysgol am Ddim yn ystod y bythefnos cyn y Pasg gan fydd y disgyblion nôl yn yr ysgol. Serch hynny, fe fydd pob disgybl cymwys yn derbyn taleb/taliad o £39 dros wyliau'r Pasg.

Trefniadau Clwb Brecwast – ni fydd y Clwb Brecwast yn weithredol am gyfnod felly 8.30 fydd yr amser cynharaf i gyrraedd yr ysgol.

Symptomau - dylai unrhyw un sydd â symptomau Covid-19 aros gartref ar unwaith, archebu prawf a hysbysu'r ysgol. Mae angen i'r aelwyd gyfan hunanynysu nes bod canlyniad y prawf yn hysbys.

Mae'r symptomau'n cynnwys tymheredd uchel, peswch parhaus newydd a cholled neu newid i ymdeimlad o arogl neu flas. Gall fod symptomau eraill yn gynnwys, fel cur pen, blinder ac gwinegon cyffredinol a phoenau sy'n gysylltiedig â'r fflw fel arfer.

Cyfyngderau - hoffwn eich atgoffa'n garedig o'r cyfyngderau presennol. Er ein bod yn gobeithio bod disgyblion yn medru dychwelyd i'r ysgol o Fawrth 15fed ymlaen, mae'r cyfyngderau yn parhau o ran yr angen i bawb gadw oddi fewn i'w aelwyd a pheidio â chymysgu ag eraill.

Dysgu o bell ar gyfer disgyblion y Cyfnod Allweddol 2 – mi fydd gweithgareddau dysgu o bell gan gynnwys ffrydio byw yn parhau i Gyfnod Allweddol 2. Mi fydd yr athrawon yn sicrhau tasgau Teams tan ddydd Gwener, Mawrth 12fed. Fodd bynnag mi fydd ffrydio byw dyddiol yn dod i ben ar ddydd Mercher, Mawrth 10fed.

Amseroedd cyrraedd – mi fydd cyfle i chi adael eich plant ger yr ysgol unrhyw bryd rhwng 8.30 a 9.00 o'r gloch. Mi fydd staff yr ysgol yn cwrdd â'r plant ar y palmant tu allan i'r ysgol ac yn eu cyfeirio i'w dosbarthiadau. Ni fydd modd i rieni / gwarcheidwaid gael mynediad i'r ysgol.



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Casglu plant ar ddiwedd dydd - Er mwyn anelu at sefyllfa lle mae rhieni / gwarcheidwaid yn ymbellhau'n gymdeithasol rydym am barhau i ddilyn yr amserlen isod er mwyn lleihau'r nifer o rieni / gwarcheidwaid sydd wrth gât yr ysgol ar yr un adeg;

3 o'r gloch – Meithrin a Derbyn yn cael eu casglu o iard y Meithrin a drysau'r Derbyn.

3.10 - disgyblion Bl 1 yn cael eu casglu ger y brif fynedfa (a brodyr a chwiorydd iau)

3.10 – disgyblion Bl 2 yn cael eu casglu ger y gatiâu dwbl gwyrdd ar y cae ger y pafiliwn (a brodyr a chwiorydd iau)

3.20 – disgyblion Bl 3 a 4 (a brodyr a chwiorydd iau)

3.30 – disgyblion Bl 5 a 6 (a brodyr a chwiorydd iau)

Gofal Plant ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 (Mawrth 8fed – Mawrth 12fed) – mae nifer ohonoch yn cymryd mantais o'r gofal plant sydd ar gael yn yr ysgol i blant gweithwyr y rheng flaen. Dyma'r dolenni ar gyfer gwneud cais am le. Mae'r dolenni ar agor tan 1yp bob dydd Mercher. Os oes gennych broblem yna cysylltwch â mi yn yr ysgol. Mi fydd disgyblion sydd fel arfer yn mynychu'r Hwb Gofal Plant yn mynd i'w dosbarthiadau arferol o ddydd Llun, Mawrth 15fed ymlaen.

Edrychwn ymlaen yn fawr at fedru croesawu'ch plentyn yn ôl i safle'r ysgol. Diolch o galon ichi fel rheini a gofalwyr am eich holl ymdrechion i gynorthwyo gydag addysg eich plant gydol y cyfnod hwn.

https://forms.ceredigion.gov.uk/ufs/Emergency_Childcare.eb&LANGUAGE=CY

https://forms.ceredigion.gov.uk/ufs/Emergency_Childcare.eb?LANGUAGE=EN

Eisteddfod T 2021 – Fel y llynedd, mi fydd Eisteddfod yr Urdd eleni yn dilyn fformat gwahanol, sef Eisteddfod T. Mae'r cyfnod cofrestru ar gyfer cystadlu rhwng Mawrth 1^{af} – 26^{ain}. **Chi fel rhieni/gwarcheidwaid sy'n cofrestru'r plant.** Mae'r broses arlein yn un ddigon syml – rydych yn dewis y gystadleuaeth ac yna'n 'Gwneud cais' a dilyn y cyfarwyddiadau. Mi fydd yr ysgol yn cystadlu mewn ambell i gystadleuaeth **os yw'r cyfyngiadau Covid-19 yn caniatáu i ni wneud.** Mae croeso i chi glicio ar y ddolen yma i weld yr holl gystadlaethau. [S4C - Eisteddfod yr Urdd: Cystadlaethau](#)

Os oes gennych unrhyw bryderon yna cysylltwch â mi ar unwaith.

R C Williams, Pennaeth 03/03/2021

prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

I write to inform you of our arrangements for welcoming more pupils back to school from the week commencing March 15th onwards.

Final confirmation of these arrangements will take place following a statement made by the First Minister on March 12th, due to the need to act in accordance with the current Public Health position. However, we want to communicate our intentions with you so that we can all prepare to return to face-to-face learning.

During the week commencing March 15th we will be welcoming years 3, 4, 5 and 6 back to the site as follows:

Monday, March 15th - about half of all KS 2 classes return alphabetically in terms of surnames (see table below)

Tuesday, March 16th - the other half of the class returns alphabetically in terms of their surnames.

Wednesday, March 17th - All pupils will have returned.

Blwyddyn addysgol / Educational year	Dydd Llun Mawrth 15fed / Monday, March 15 th	Dydd Mawrth, Mawrth 16eg / Tuesday March 16 th
Blwyddyn 3 / Yr 3 Meryl Wigley / Llinos Jarman Jones	Cyfenwau / Surnames A - J	Cyfenwau / Surnames K - Z
Blwyddyn 3 / Yr 3 Buddug Davies	Cyfenwau / Surnames A - H	Cyfenwau / Surnames I - Z
Blwyddyn 4 / Yr 4 Siân Eleri Davies	Cyfenwau / Surnames A - J	Cyfenwau / Surnames K - Z
Blwyddyn 4 / Yr 4 Dyfed Jones	Cyfenwau / Surnames A - J	Cyfenwau / Surnames K - Z
Blwyddyn 5 / Yr 5 Ffion Ellis	Cyfenwau / Surnames A - L	Cyfenwau / Surnames M - Z
Blwyddyn 5 / Yr 5 Siôn Griffiths	Cyfenwau / Surnames A - H	Cyfenwau / Surnames I - Z
Blwyddyn 6 / Yr 6 Llŷr Evans	Cyfenwau / Surnames A - J	Cyfenwau / Surnames K - Z
Blwyddyn 6 / Yr 6 Gareth James	Cyfenwau / Surnames A - I	Cyfenwau / Surnames K - Z



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

In-service Training Day - there is no *In-service Training Day* on Friday, March 26th, as set out in the Ceredigion calendar. The next *INSET* day will be on Friday, May 28th.

Easter Holidays - the school will close for the Easter holidays at 3.30 on Friday, March 26th and will re-open on Monday April 12th.

Masks - all parents and visitors to the site will need to wear a mask at all times. This includes parents / carers when dropping off and collecting children from school. Parents are also kindly requested to distance themselves socially near the school campus. Staff may wear masks in classes if they cannot keep 2 meters away from the children or other adults.

Safety - all the rigorous measures that were in place with the school remain in terms of keeping contact groups, temperature taking, one way corridors, hygiene and extra cleaning.

Food - The Kitchen will be open from now on. There will be no vouchers / payments for pupils eligible for Free School Meals during the two weeks before Easter as pupils will be back at school. However, all eligible pupils will receive a voucher / payment of £ 39 over the Easter holidays.

Breakfast Club Arrangements - The Breakfast Club will not operate for a while so earliest drop off will be 8.30.

Symptoms - anyone with Covid-19 symptoms should stay home immediately, order a test and inform the school. The whole household needs to be isolated until the test result is known.

Symptoms include high temperature, a new persistent cough and loss or a change in sense of smell or taste. Other early symptoms may include headaches, general tiredness and vomiting and usually flu-related pains.

Constraints - I would like to remind you of the current limitations. Although we hope that pupils will be able to return to school from March 15th onwards, the limitations remain with regards for everyone to remain within their home and not to mix with others.

Distance learning for Key Stage 2 pupils - distance learning activities including live streaming will continue for Key Stage 2. Teachers will be preparing tasks in Teams until Friday, March 12th. However daily live streaming will stop on Wednesday, March 10th.

Arrival times - you will be able to leave your children near the school at any time between 8.30 and 9.00 pm. School staff will meet the children on the pavement outside the school and direct them to their classes. Parents / guardians will not be able to access the school.



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

School Lunch - a hot lunch will be provided. Remember that you need to secure sufficient funds in your Parent Pay account

End of day collection - In order to aim for a situation where parents / guardians are socially distanced we want to continue to follow the timetable below in order to reduce the number of parents / guardians at the school gate at any one time;

3 o'clock - Nursery and Reception collected from Nursery yard and Reception doors.

3.10 - Year 1 pupils collected near the main entrance (and younger siblings)

3.10 - Year 2 pupils gathered near the green double gates on the field near the pavilion (and younger siblings)

3.20 - Year 3 and 4 pupils (and younger siblings)

3.30 - Year 5 and 6 pupils (and younger siblings)

Childcare for Key Stage 2 (March 8th - March 12th) - many of you are taking advantage of the childcare available at school for the children of frontline workers. Here are the links for applying for a place. Links are open until 1pm every Wednesday. If you have a problem then please contact me at school. Pupils who normally attend the Childcare Hub will be attending their usual classes from Monday, March 15th.

We look forward very much to being able to welcome your child back to the school site. Many thanks to you as parents and carers for all your efforts in assisting with your children's education throughout this period.

https://forms.ceredigion.gov.uk/ufs/Emergency_Childcare.eb&LANGUAGE=CY

https://forms.ceredigion.gov.uk/ufs/Emergency_Childcare.eb?LANGUAGE=EN

Eisteddfod T 2021 – Like last year, this year's Urdd Eisteddfod will follow a different format, Eisteddfod T. The registration period for competing is March 1st - 26th. **You as parents / guardians register the children.** The online process is easy to follow - you select the competition and then 'Enter now' and follow the instructions. The school will compete in some competitions **if the Covid-19 restrictions allow us to do so.** Feel free to click on this link to see all the competitions. [SAC - Eisteddfod yr Urdd: Competitions](#)

If you have any worries regarding your child's education then please contact me immediately.

R C Williams, Headteacher 03/03/2021

prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk